St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

# Grynodeb o Wybodaeth i Hurwyr a Hyrwyddwyr


© Kieron Ridley

## www.stdavidshallcardiff.co.uk

Mae'r wybodaeth yn y pecyn hwn yn destun i newid, cysylltwch â ni i gadarnhau cyfleusterau ac offer.

Cywir yng Ebrill 2016.

# CYNNWYS

Ar gyfer awditoriwm , cynhadledd, ac ymholiadau digwyddiadau arbennig , cysylltwch â Yvonne Smith on **ysmith@caerdydd.gov.uk** or 02920 878519

Ar gyfer archebu ystafelloedd , ac ymholiadau cyffredinol , cysylltwch â Joanne John on **joanne.john@caerdydd.gov.uk** or 02920 878511


Cyflwyniad 3

Cyfleusterau 5

Arlwyo 6

Cyhoeddusrwydd 7

**Gwybodaeth Gyffredinol**

Cynllun Seddi 10

Cyfleusterau i'r Anabl 11

Cynteddau ac Ystafelloedd Ategol 13

Gwybodaeth Dechnegol - Awditoriwm 14

Grid Goleuadau 18

Gwybodaeth Dechnegol - Lefel 3 19

Cyfleusterau Teledu 21

Capasiti Ystafelloedd 22

**Taliadau**

Taliadau Ategol (Teledu a Radio) 23

Ffioedd Hurio—Awditoriwm 24

Ffioedd Hurio - Lefel 3 27

Ffioedd Hurio - Ystafelloedd Ategol 28

Hurio Offer 29

**Sut I Ddod o Hyd I Ni**

Trafnidiaeth 30







© Gareth Griffiths

# NEUADD DEWI SANT

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

Yng nghanol Dinas Caerdydd, mae Neuadd Dewi Sant yn adeilad i'w fwynhau yn ystod y dydd a chyda'r nos trwy gydol y flwyddyn ar gyfer eich holl ofynion cyngherddau, cynadleddau ac arddangosfeydd. Yn agored bron bob dydd o 9.30am, mae cynteddau Neuadd Dewi Sant yn darparu ardal eang a chyfforddus lle mae croeso i'r cyhoedd ymlacio. Gellir prynu lluniaeth o'r Bar neu'r Lolfa Goffi ac ar ddiwrnod braf gellir mynd á diodydd allan ar un o'r terasau am olygfa ysblennydd ar draws Caerdydd.

Mae cyfleusterau ar gyfer yr anabl yn cynnwys mynedfa lefel arbennig gyda drysau awtomatig, braille ar y platiau lifft a mannau cadeiriau olwyn yn yr awditoriwm, sydd â dolen sain i'r rhai sy'n drwm eu clyw a system ehangu clyw is-goch.

Mae Neuadd Dewi Sant, sy'n cael ei hystyried yn un o'r neuaddau cyngerdd gorau o'i maint yn Ewrop gyda'r acwsteg gorau, yn cynnig rhaglen amrywiol gan gynnwys cerddoriaeth glasurol gan gerddorfeydd byd-enwog, unawdwyr o fri rhyngwladol, cerddoriaeth gorawl ac organ, pop, roc, jazz, gwerin , dawns, chwaraeon gwylwyr dan do, sioeau ffilm, sioeau ffasiwn, darlithoedd a seremonïau a datganiadau amser cinio rheolaidd.

Mae'r awditoriwm trawiadol wedi'i aerdymheru'n llawn ac mae lle i hyd at 2000 o bobl. Mae'r seddi cyfforddus wedi'u trefnu mewn cyfres o derasau cydgysylltiol sy'n lapio o amgylch llwyfan mawr a hyblyg, gan roi llinellau gweld rhagorol ac ymdeimlad o agosatrwydd i bawb yn y gynulleidfa.



*'One of my most favourite acoustics in the world!'*

***Tasmin Little***

© Gareth Griffiths

# AR GAEL AM HURIO

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru


















© Gareth Griffiths

**<u>Cyfleusterau Cynadleddau a Digwyddiadau</u>**

Mae Neuadd Dewi Sant yn ddelfrydol ar gyfer cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol pwysig, gyda'i hamrywiaeth o gyfleusterau. Gallwn ddarparu cyfleusterau clyweledol, teledu cylch cyfyng ac ystod o osodiadau technegol parhaol sydd o safon darlledu. Mae yna hefyd ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n dda ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau llai, megis ciniawau blynyddol a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, partïon preifat a gwleddoedd priodas.

Yr ystafelloedd swyddogaeth yn Neuadd Dewi Sant yw Ystafell Is-iarll Tonypandy ac Ystafell Llanelwy - dwy ystafell lle cynhaliwyd dwsinau o dderbyniadau enwogion a phartïon sêr ar gyfer artistiaid sy'n perfformio ar y llwyfan yn y Neuadd. I'r busnes chwaethus, mae'r ystafelloedd hyn yn lleoliadau perffaith ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau.  Rhowch gynnig ar Ystafell Is-iarll Tonypandy ar gyfer Cyfarfod o'r Bwrdd neu gyfweliadau lefel uchaf, er enghraifft, neu Ystafell Llanelwy sydd â phob cyfleuster ar gyfer digwyddiadau hyfforddi staff, adloniant corfforaethol neu efallai lansiad neu gyflwyniad i gyfranddeiliaid. Mae'r ddwy ystafell yn mwynhau lleoliadau a golygfeydd yng nghanol Caerdydd sy'n destun eiddigedd gwestai a lleoliadau cynadledda eraill.

**<u>Arbenigedd ar gyfer Cynadleddau ac Arddangosfeydd</u>**

Mae ein staff cynhadledd profiadol iawn wrth law i roi cymorth ac arweiniad arbenigol waeth pa mor fawr neu fach yw eich gofynion. Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnal arddangosfa yn ein cynteddau, ystafelloedd digwyddiadau, ar gyfer y cyhoedd neu i gynulleidfa breifat, byddem yn falch o roi cyngor i chi ar ein cyfleusterau helaeth.

Ar hyn o bryd mae cyntedd Lefel 2 yn cynnal arddangosfa o ffotograffiaeth gan y Rheolwr Blaen Tŷ, Gareth Griffiths, sy'n darlunio amrywiaeth eang o berfformiadau a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant. Ceir delweddau unigryw o ymarferion o du ôl i'r llenni, wedi'u cymysgu â lluniau dein-amig o berfformiadau sydd ar y gweill, o bop, roc, gwerin, comedi, bale, a chyngherddau cerddorfaol.

**Llwyfan**

Gall y prif lwyfan ddarparu ar gyfer cerddorfa ryngwladol lawn o hyd at 120 o gerddorion. Gellir ei ymestyn drwy ddefnyddio dwy lifft blaen llwyfan, i roi llwyfan ychwanegol neu bwll cerddorfa. Mae’r prif lwyfan hefyd yn isrannu’n wyth rhan ar wahân, sydd, ynghyd â'r lifftiau blaen llwyfan, yn cael eu gweithredu gan jac hydrolig. Mae'r deg lifft yn rhoi hyblygrwydd llwyr o fewn yr ardal lwyfan i weddu i unrhyw ofyniad.

**Goleuadau**

Darperir y goleuadau tŷ i’r Awditoriwm gan lampau halogen twngsten a weithredir oddi ar system meistr, a gellir eu pylu. Goleuir y cynteddau gan lampau addurniadol LED effeithlon o ran ynni, ac ystod lawn o oleuadau sy’n addas ar gyfer pob perfformiad a chynhadledd.

**Sain**

Mae system PA clwstwr canolog D & BQ llawn clwstwr yn y neuadd, a hyd at 60 o gylchedau meicroffon gwifren. Mewn termau acwsteg, mae’r neuadd wedi’i dylunio ar gyfer Amser Reverb o 2.1 eiliad (gwag), a 1.9 eiliad (llawn) gyda lefel sŵn Maen Prawf Sŵn 20.

**Ystafell Glyweledol (AV)**

Mae'r ystafell glyweledol yn cynnig ystod lawn o’r goleuadau a chyfleusterau cyfathrebu/sain diweddaraf.

Ar gyfer cwmnïau megis grwpiau pop sydd angen y gallu i weithredu y tu allan i'r ystafell glyweledol, mae ardal y tu ôl i'r seddi ar gael, unwaith eto gyda’r cysylltiadau technegol angenrheidiol.

**Grisiau symudol**

Mae pedwar grisiau symudol yn cael eu darparu o lefel y ddaear i’r ail lawr.

**Trwm eu Clyw**

Mae cyfarpar system clyw is-goch yn yr awditoriwm (drwy fwclis neu glustffonau). Hefyd mae dolen ar gyfer y trwm eu clyw ar gael yn y seddi, i’w defnyddio gyda derbynwyr.

**Cyfleusterau Teledu/Darlledu Allanol**

Ceir cyfarpar cyfleusterau recordio darlledu/sain yn yr adeilad.

Mae’r cyfleusterau ar gyfer teledu/darlledu allanol yr un mor hael, gyda pharcio ar gyfer cerbydau ar y Dec Gwasanaeth a phwyntiau mynediad ar bob lefel i dynnu ceblau drwyddynt. Mae’r ardaloedd tu ôl i'r haenau a’r seddi yn wastad neu â ramp er mwyn caniatáu symud camerâu yn rhwydd.

Mae'r cylchedau o fewn yr adeilad wedi eu cynllunio yn unol â dymuniadau'r cwmnïau darlledu i roi cyfleusterau ychwanegol iddynt ar gyfer goleuadau teledu sy’n ychwanegol at y goleuadau llwyfan a ddarperir ar gyfer y neuadd.

# ARLWYIO

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

Mae gennym y profiad a'r arbenigedd i ddarparu ar gyfer eich holl anghenion arlwyo - o gyfarfodydd bach swyddfa, ciniawau corfforaethol a derbyniadau canapés i briodasau, cynadleddau rhyngwladol, gwleddoedd a lletygarwch rygbi.

Rydym yn gallu darparu pecynnau lletygarwch corfforaethol a phecynnau dydd i gynadleddwyr ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a byddwn yn hapus i deilwra dewisiadau arlwyo i weddu â chyllidebau mawr a bach.

Rydym yn ymroddedig i ddefnyddio cynnyrch lleol lle bynnag y bo'n bosibl ac rydym yn cefnogi cyflenwyr Cymreig trwy gynnig eu cynnyrch ar ein bwydlenni. Yn ogystal, rydym yn darparu ar gyfer yr holl ofynion dietegol ac ethnig arbennig.

Mae ein Rheolwyr Digwyddiad dynodedig yn gweithio gyda chi, er mwyn sicrhau bod pob digwyddiad yn llwyddiannus.



Petaech angen ein pecynnau bwydlen neu am wybodaeth bellach, cysylltwch â'n Rheolwr Arlwyo, ar 02920 878453

## Enghraifft o Fwydlen Cynadleddwr Dydd

**Wrth Gyrraedd**

Paned o De Cymreig, Coffi Masnach Deg, Te Llysieuol a Theisennau Daneg Bach

**Toriad y bore**

Paned o De Cymreig, Coffi Masnach Deg, Te Llysieuol a Bisgedi Bronte

**Cinio**

Amrywiol Roliau Bara a Bara wedi'u Lapio i gynnwys Cig, Pysgod a Llysieuol

Tarten Sawrus Tomato a Basil

Goujons Penfras a Mayonnaise Sitrws

Selsig Rhost Mêl Cymru

Creision

Teisennau bach Ffrwythau Coctel

Gwydraid o sudd ffrwythau neu ddŵr mwynol

**Toriad y prynhawn**

Paned o De Cymreig, Coffi Masnach Deg, Te Llysieuol

Os hoffech drafod Marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer eich digwyddiad, cysylltwch â'r Swyddfa Marchnata.  Un darn o gyngor sy'n berthnasol i'r holl hurwyr yw hyn: er mwyn sicrhau bod eich digwyddiad yn llwyddiant, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynhyrchu eich cyhoeddusrwydd mewn da bryd.

## Llyfryn/Gwefan Neuadd Dewi Sant

Bydd eich digwyddiad yn cael ei gynnwys yn y llyfryn Neuadd Dewi Sant sy'n cynnwys:

- Llyfryn bob dau fis - 20,000 o gopïau yn cael eu dosbarthu
- Llyfryn bach - 85,000 o gopïau yn cael eu dosbarthu
- Rhestru ar y wefan

Nodwch fod faint o le a roddir i'ch digwyddiad yn ôl disgresiwn rheolwyr Neuadd Dewi Sant

## Posteri

Mae dylunio a chynhyrchu posteri yn gyfrifoldeb yr huriwr. Mae ein safleoedd o faint coron ddwbl (20 "x 30"). Mae gennym nifer cyfyngedig o safleoedd gyda galw parhaus amdanynt ac felly ni allwn warantu naill nifer y safleoedd na faint o amser y bydd eich posteri yn cael eu harddangos. Darparwch tua 10 o bosteri, o leiaf fis cyn y digwyddiad.

## Taflenni

Fel gyda phosteri, cyfrifoldeb yr huriwr yw dylunio a chynhyrchu taflenni. Bydd taflenni yn cael eu dosbarthu yng nghynteddau Neuadd Dewi Sant yn rhad ac am ddim. Os oes lle, gall yr huriwr hefyd dalu i gael cynnwys taflen yn y deunydd a bostir i Gyfeillion Neuadd Dewi Sant bob yn ail fis. Dylai taflenni ar gyfer eu postio fod yn A5 neu lai o ran maint (neu ar ôl eu plygu), ac o dan 150g mewn pwysau.

## Safleoedd Brandio

Am gost ychwanegol, mae nifer o safleoedd brandio ar gael: arddangosfeydd finyl ar raddfa fawr yn fewnol ac yn allanol, baneri yn hongian a baneri polyn lamp.

## Logo Neuadd Dewi Sant

Os gwelwch yn dda, gwnewch bob ymdrech i gynnwys logo swyddogol Neuadd Dewi Sant ar eich holl gyhoeddusrwydd. Mae copïau o'r logo ar gael o Swyddfa'r Wasg a Marchnata.

## Hysbysebu yn y Wasg

Dim ond ar gais penodol yr huriwr y bydd Neuadd Dewi Sant yn trefnu gosod hysbysebion. Dylid hysbysu manylion o hysbysebion o’r fath sydd i'w gosod bythefnos cyn dyddiad y copi. Bydd costau hysbysebion o'r fath yn cael eu cynnwys yn yr anfoneb derfynol.

## Datganiadau i'r Wasg

Mae copi o'r restr y wasg Neuadd Dewi Sant ar gael ar gais.

## Rhaglenni

Os ydych yn cynhyrchu eich rhaglen eich hun ar gyfer y digwyddiad, efallai y byddwch eisiau cynnwys tudalen gwybodaeth gyffredinol am Neuadd Dewi Sant. Mae copi ar gael gan yr Adran y Wasg a Marchnata.

.

**Cysylltwch ag Adran y Wasg a Marchnata ar: 02920 878533**

Twitter—@stdavidshall
Facebook— St David’s Hall



# PRIF AWDITORIWM

## NEUADD DEWI SANT








- Seddi i hyd at 1,956 gyda 625 o seddi ar lefel y llawr, 350 tua cefn y llwyfan a 1008 yn yr haenau.
- Systemau goleuadau a sain perfformiad llawn mewnol
- Acwsteg o safon byd
- Ystafell Werdd gyda mynediad at gynteddau a chefn y llwyfan
- Gydag aerdymheru a lleithio llawn
- Dolen sain i'r trwm eu clyw
- Cyfleusterau cadair olwyn
- Aelodaeth Hynt - Cynllun Gofalwyr Cymru

© Gareth Griffiths

# CYNLLUN SEDDI

## Neuadd Dewi Sant—Prif Awditoriwm



# CYFLEUSTERAU I'R ANABL

## Neuadd Dewi Sant

http://www.hynt.co.uk/cy/

- Gofod ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y seddi llawr
- Lifft i bob lefel
- Mynediad toiledau ar Lefel 2, 3 a 4
- Croeso i gŵn mynediad
- Gwella sain is-goch
- Aelodaeth Hynt - Cynllun Gofalwyr Cymru

### PARCIO

Mae'r pwynt gollwng cyhoeddus agosaf yng nghefn y Llyfrgell ganolog newydd, ger Maes Parcio John Lewis. Dylai partïon mewn bysiau gysylltu â'r ganolfan, a fydd yn rhoi cyngor ynglŷn â'r lle gorau i'w gollwng, a'r llwybrau i'r neuadd. Ceir meysydd parcio mawr ar safle newydd John Lewis ac fel rhan o ganolfan siopa 2 Dewi Sant, yn agos iawn at y neuadd.

### FFYRDD I MEWN

Mae ffordd wastad i mewn, gyda drysau awtomatig, fel rhan o'r brif fynedfa oddi ar Stryd Working, sy'n arwain at y swyddfa docynnau a lifft Blaen y Tŷ. Ar gyfer artistiaid, mae ramp o'r dec gwasanaeth i ddrws y llwyfan a cheir mynediad trwy lifft, (gyda braille ar y platiau lifft), i'r llwyfan ac ystafelloedd newid ar Lefel 3, 4 a 5. Mae'r trothwyon yn wastad gyda matiau mynedfa wedi'u gwrthsoddi i mewn i gafnau mat.

### SWYDDFA DOCYNNAU

Mae gan y cownter Swyddfa Docynnau adran y gellir ei gostwng er hwylustod defnyddwyr cadair olwyn.

### MYNEDIAD TU MEWN

Mae'r lifft yn y brif fynedfa ar y llawr gwaelod yn rhoi mynediad i bob un o'r 6 lefel ac wedi'i ffitio â chyhoeddiad llais electronig ar bob lefel.

Mae'r platiau lifft ar uchder y gellir ei gyrraedd yn gyfforddus gan ddefnyddwyr cadair olwyn ac maent yn rhoi gwybodaeth mewn braille. Mae dangosyddion mewn braille ar bob lefel y tu allan i'r drysau lifft i ymwelwyr â nam ar eu golwg allu gwirio ar ba lawr y maent.  Mae grisiau symudol o'r llawr gwaelod yn rhoi mynediad at y ddwy lefel gyntaf.  Mae'r grisiau i bob un o'r 6 lefel â chanllawiau addas.

### STIWDIO LEFEL 1

Gellir cael mynediad i Stiwdio Lefel 1 drwy lifft o'r Llawr Gwaelod. Mae llefydd eistedd ar gyfer cadeiriau olwyn yn y rhesi blaen.

**AWDITORIWM**

Gallwn gynnwys hyd at 14 o ddefnyddwyr cadair olwyn mewn gwahanol leoliadau yn yr awditoriwm, gyda seddi cyfagos i'w cydymaith. Mae'r mynediad i'r seddi hyn o Lefel 3. Helpwch ni i'ch helpu chi drwy roi gwybod i ni pan fyddwch angen un o'r lleoliadau hyn.

Mae dolen sain wedi'i ffitio ar gyfer y seddi llawr a Haen 1 er budd pobl sy'n drwm eu clyw. Mae system is-goch hefyd ar gael hefyd i fynychwyr, gyda neu heb gymhorthion clyw, ac mae wedi'i gynllunio i ymdrin â phob ardal eistedd.

Am resymau diogelwch, rydym yn credu y byddai'n ddoeth i bobl â nam ar eu golwg gael cwmni gyda hwy pan fyddant yn mynychu perfformiadau yn yr awditoriwm.

**TOILEDAU**

Darperir toiledau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ar lefelau 2, 3, a 4. Mae yna hefyd toiled i'r anabl o'r ddau ryw ar Lefel 2 sy'n gweithredu'r cynllun allwedd RADAR. Gellir benthyca allwedd gan Neuadd Dewi Sant trwy gysylltu â naill ai'r Rheolwr Tŷ ar Ddyletswydd neu'r Dderbynfa Rheolwyr ar Lefel 2.

**GWEITHDREFNAU ARGYFWNG**

Mae'r holl allanfeydd tân wedi cael eu nodi'n glir a bydd y staff yn cynorthwyo cwsmeriaid gydag unrhyw anghenion arbennig. Ceir copi llawn o'r cynllun gwacáu ar gyfer pobl anabl ar gais.

**ARWYDDION A GOLEUADAU**

Mae llythrennau neu rifau mawr ar bob un o'n arwyddion sydd o wahanol liw i'w cefndir er mwyn helpu'r rhai sy'n rhannol ddall.

**CŴN TYWYS A CHŴN CLYW**

Gellir mynd â chŵn tywys a chŵn clyw i Neuadd Dewi Sant. Rhaid i ymwelwyr gyda chŵn tywys neu gŵn clyw sy'n dymuno mynychu perfformiad yn yr awditoriwm roi gwybod i ni **cyn** cyrraedd fel y gall y trefniadau angenrheidiol gael eu gwneud.

**DIMENSIYNAU & MANYLEBAU**


Mae dimensiynau a manylebau ar gyfer mynedfeydd, lifftiau, cyfleusterau toiled, grisiau, rheiliau llaw, switsys, rheolaethau larwm tân ayb yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Safonau Prydeinig, BS5810: 1979 "Mynediad i'r Anabl i Adeiladau".


# CYNTEDDAU AC YSTAFELLOEDD ATEGOL

## Neuadd Dewi Sant - Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

Mae ein meysydd cyntedd Lefel 3 a Lefel 5 yn cael eu gwasanaethu gan eu bar eu hunain , gyda Siop Goffi ar Lefel 4 .

Mae gennym ddau brif ystafell swyddogaeth ar Lefel 3. Mae'r ddau yn gallu cael eu paratoi gyda sgrîn a monitor, a gall thaflunydd eu cyflenwi os oes angen.






### YSTAFELL LLANELWY

- PA (2 ficroffon)
- Capasiti ar gyfer darlith – 75
- Sgrin deledu fawr ar y wal
- Sgrin taflunydd i'w thynnu i lawr
- Capasiti Ystafell Bwrdd - 36



### YSTAFELL IS-IARLL TONYPANDY

- Capasiti ar gyfer darlith – 20
- Sgrin deledu fawr ar y wal
- Sgrin taflunydd i'w thynnu i lawr
- Ystafell ochr gydag en-suite
- Capasiti Ystafell Bwrdd - 14

## YSTAFELLOEDD GWISGO

Mae yna nifer o ystafelloedd gwisgo lleoli tu ôl i'r llwyfan yn cynnwys Swyddfa Cynhyrchu, Ystafell Werdd ac ardal Gegin.



## LLWYFAN

- Maint llwyfan safonol 10.8m x 17.3m
- Uchafswm maint llwyfan 16.6m x 17.3m
- Lifftiau llwyfan (gall y ddwy lifft gyntaf ddisgyn yn is na lefel yr awditoriwm i ffurfio pwll cerddorfa, ond effeithir ar yr uchafswm seddi). Gellir lleoli'r holl lifftiau ar lefel yr awditoriwm.
- Uchafswm uchder y lifftiau uwchben y seddi llawr blaen yw 1.8m. Dyfnder y pwll cerddorfa 61cm islaw lefel y seddi llawr blaen.
- Gall grid crogi llwyfan uchel sy'n cynnwys lampau llwyfan ac uchelseinyddion gael ei ostwng i lefel y llwyfan.
- Lifft nwyddau at y llwyfan o ddec gwasanaethu yn y cefn yn 2.8m o ddyfnder x 2.1m o led x 2.3m o uchder.
- Mynediad golygfeydd uniongyrchol i'r llwyfan uchafswm lled ar gyfer fflatiau ayb 2m.
- Offer Mynediad 1 x tallescope (un) ynghyd ag ysgolion Ffrâm-A amrywiol
- 100 o stondinau cerddoriaeth (wedi'u goleuo os oes angen)
- 200 o gadeiriau cerddorfaol

## CLYWELEDOL

- Monitor trosglwyddo teledu cylch cyfyng a chyfleusterau diogelwch
- Desg Goleuadau a Sain (ystafell ar wahân)



## Pŵer ategol i'r llwyfan:

Llwyfan Dde

- 3 x 200 amp - camlocks neu powerlock
- 3 x 100 amp - tails yn unig
- 3 x 32 amp - soced ceeform

**Llwyfan Chwith**

- 1 x 63 amp – soced ceeform un wedd
- 1 x 63 amp – soced ceeform 3 gwedd
- 1 x 32 amp – soced ceeform 3 gwedd

## Llenni a Masgio Llwyfan

- 2 x Crossover tab tracks lled llwyfan llawn (lleoliad sefydlog)
- 1 x set tabs gwyrdd lled llawn 30’ o gwymp
- 1 x set o goesau gwyrdd cyfatebol 8’ x 30’ o gwymp
- 3 x set o goesau du 10’ x 30’



© Gareth Griffiths

## GOLEUADAU

**Lampau Llwyfan:**

- 48 x 1kw parcans (8 x bar o 6)
- 10 x 1kw parcans (rhydd)
- 8 x 1kw floorcans
- 7 x 650w Strand SL profile 15-32 Followspots
- 30 x 5kw fresnels
- 4 x 10kw fresnels
- 5 x 4 lamp blinders
- 8 x Thomas 4 cells

**Lampau Blaen y Tŷ:**

5 x 745w source 4 10 degree lens tube

15 x 750w source 4 Zoom 15/30 degree lens tube


**Followspots**

2 x 2kw Strong Supertrouper II gyda Mag 6 Lliw.

1 x 3kw xenon (Lee Colourtran) gyda Mag 6 Lliw

## Effeithiau

- 2 x Unique Haze Machines (Rheoladwy gan DMX)
- 2 x Pulsar Digital Strobes (Rheoladwy gan DMX)



© Gareth Griffiths

Y system pylu yw Strand EC21. Mae pob cylched unigol yn RCD warchodedig ac yn cynnwys meddalwedd adrodd gwallau sy’n cael ei fonitro drwy gyswllt ffibr optig/ CAT5. Mae hyn yn cael ei reoli gan system MA gan gynnwys prif gonsol GrandMA 2 maint llawn a chyfrifiadur pwrpasol sy'n rhedeg GrandMA ar PC fel copi wrth gefn cydamserol byw.

Mae gan GrandMA 2 30 tudalen o weithredwyr, a gall pob un ohonynt chwarae yn ôl rhestrau ciw cyfan, FX neu weithredu fel is-feistri syml. Mae’r 6 sgrin yn darparu mynediad uniongyrchol i byllau o oleuadau symudol, chwilio am raglennu cyflym neu gael ei ddefnyddio’n fyw mewn sioe.

Mae llinellau Cat 5 Ethernet yn rhedeg o SR i'r ystafell Glyweledol ac o gefn y seddi llawr i'r ystafell Glyweledol; gall y rhain gael eu cysylltu â’i gilydd os oes angen. Mae llinellau rheoli DMX sy'n rhedeg o'r blwch rheoli goleuadau i’r seddi llawr cefn, safle Blaen Tŷ, Pontydd 1 a 2, y ddwy ffrâm oleui, cefn y gwagle T5, a’r llwyfan ochr dde (lefel y ddaear).

Mae pob uned yn ffocysu drwy Tallescope. Ni chaniateir cerdded ar gridiau goleuo yn fewnol. (Gweler ein harferion gwaith am fwy o wybodaeth).

Mae'r hurio sylfaenol yn cynnwys naill ai golchiad llwyfan 6 lliw neu ein rig goleuo cerddorfaol safonol. Am unrhyw ofynion mwy penodol, cysylltwch â'n rheolwr llwyfan Technegol.

## SAIN

### Desg

Cymysgydd sianel mewnbwn mono Midas Siena 40 gyda ‘16 mix buses’, 4 Band EQ amlder ysgubedig (Lo, Lo-Mid, High-Mid a High) fesul sianel.

### System

Yn y prif awditoriwm ceir y canlynol:

Clwstwr arae llinell ganolog yn cynnwys 3 x D&B Qi Subs, 2 x D&B Qi10s, a 4 x D&B Qi1s

Hefyd mae 4 x D&B Qi 7s (2 fesul ochr) ar ongl 80 gradd i’r prif arae.

2 x D&B Qi 8s (1 bob ochr) ar y wal ar lefel y seddi llawr

2 x D&B Qi 7s a 1 x D&B Qi10, yn gysylltiedig â’r prif grid sy’n ymdrin â Haenau 4, 5 a 6

(Noder: Rhaid i’r prif grid fod ar lefel optimaidd o 30 troedfedd)

6 x D&B E3s ar stondinau symudol ar flaen y llwyfan ar gyfer llenwi seddi llawr.

Mae'r rhain i gyd yn cael eu pweru gan gymysgedd o chwyddleisyddion Epac D&B D12 a D&B.

Mae'r system gyfan yn cael ei rheoli drwy gyswllt PC/Cat 5 yn defnyddio meddalwedd Rope-C. Mae hyn yn rheoli oedi a gosodiadau EQ pob chwyddleisydd. Mae'r PC sy’n rheoli'r system hon wedi'i lleoli yn yr ystafell sain a dim ond staff Neuadd Dewi Sant sy’n cael mynediad ato.

### Monitoriaid

Mae 8 Monitor yn anfon allan o’r brif ddesg i Chwyddleisyddion Epac D&B. Mae bob Monitor yn anfon BSS FCS 966 30 Band Graphic EQ yn unol â With 10 x D&B Max 2 ffordd 15"\2" Monitoriaid Llawr ar gael.

Mae'r system gyfan yn cael ei rheoli drwy gyswllt PC/Cat 5 yn defnyddio meddalwedd Rope-C. Mae hyn yn rheoli oedi a gosodiadau EQ pob chwyddleisydd. Mae'r PC sy’n rheoli'r system hon wedi'i lleoli yn yr ystafell sain a dim ond staff Neuadd Dewi Sant sy’n cael mynediad ato.

### Ffynonellau

2 x Tascam CD-01U Chwaraewr CD

1 x Marantz CDR 620 Recordydd CD

2 x Tascam MD-350 Chwaraewr/ Recordydd Disgiau Mini

1 x Denon TU-260Lii Cyseiniwr radio

### Effeithiau

1 x YAMAHA SPX 990 uned effeithiau

1 x DRAWMER DS404 Quad Noise Gate

1 x DRAWMER DL441 Quad Compressor/Limiter

**Mics**

8 x Shure SM58

2 x Shure SM58 Beta

8 x Shure SM57

1 x AKG 414

4 x SE 4400A

2 X SE 1A

4 x AKG 747

3 x AKG SE300B

4 x AKG C418

1 x AKG D112

1 x AKG D12 E

1 x Sennheiser E815S

1 x Sennheiser E835S

4 x Shure Microflex MX412

2 x Shure Microflex MX418

4 x Crown PCC – 160

2 x Rode NTG - 1

**Blychau DI**

5 x EMO Single DI Boxes

4 x BSS AR-133 DI Boxes

1 x Ultra DI D120 2 Channel DI Box

2 x DI – PC Bal Box

**Radio (codir yn ychwanegol am y rhain, holwch am ragor o wybodaeth)**

8 x Shure Lavalier

8 x Beta 87

8 x Shure ULXD1 Belt Pack

6 x CPC Headset Mic

Mae amrywiaeth dda o stondinau a cheblau ar gael.

Mae blwch llwyfan 24-ffordd sy'n rhedeg i'r llwyfan a mae tua 30 pwynt meicroffon o gwmpas yr awditoriwm, i gyd yn dychwelyd i'r ystafell sain ac yn 'patchable' yn hawdd i'r ddesg trwy Bantam (GPO) patch bay.

DS. Bydd hurio safonol yn cynnwys defnyddio'r holl offer uchod, gyda'r eithriadau canlynol:

Uchafswm o 6 microffon

*Mae meicroffonau radio yn destun i dâl ychwanegol o £38 fesul mic

Codir tâl am unrhyw gyfryngau gwag ayb. a ddarperir gan NDS

Bydd y defnydd o feicroffonau dros y nifer hurio safonol drwy drafodaeth gyda'r

Rheolwr Technegol


Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â'n Adran Dechnegol ar 029 2087 8600, neu ewch i'n gwefan Dechnegol **www.stdavidshallcardiff.co.uk/cymraeg/technical**

'

*What an amazing place to sing! Can I take it home please? The only thing that's better than the wonderful acoustic and the extraordinary warmth of the audience is the kindness and helpfulness of the theatre staff'*

***Lesley Garrett***

**Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru**



**I mewn**

Drwy'r lifft Arlwyo neu Lifft Blaen y Tŷ. Lifft Cefn y Llwyfan drwy drefniant â'r Technegwyr Llwyfan.

**Pŵer**

13 amp sengl a fwydir yn lleol. Gellir gosod pŵer uwch i fyny hyd at 63 amp gwedd sengl ond rhaid trafod hyn yn gyntaf gyda'r Rheolwr Llwyfan Technegol.

**Llwyfan**

Mae diagram o'r gofod ar ddiwedd y ddogfen hon. Oherwydd y golofn ar ochr dde'r Llwyfan, mae'r ardal perfformiad yn cael ei chyfyngu. Cysylltwch â'r Rheolwr Llwyfan Technegol os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach.

**Piano**

Ar y llwyfan mae Piano Gyngerdd Honer Boudoir. Mae'r biano mewn cyflwr da a gellir ei thiwnio ar gost ar gais. Gellir symud y biano i gornel bellaf y llwyfan, ond ni ellir ei symud oddi yno.

**Rheolaeth sain**

Soundcraft LX7-II yw'r ddesg, cymysgydd 16 sianel, gyda 6 Aux's (4 Pre Fed/2 Post Fed) a 4 grŵp. Mae'r safleoedd cymysgu ar gael ar Lefel 3, Lefel 4 ac yn yr ystafell amp.

Mae rac prosesu Blaen Tŷ ar wahân sy'n cynnwys un cyfyngydd cywasgwr cwad Drawmer DL441 ac un giât cwad Drawmer DS404. Ceir prosesu effeithiau drwy SPX Yamaha 900. Mae dau Klark-Teknik DN332 yn rhoi 4 ffordd o 16-band EQ graffig (foldback EQ yn bennaf). Mae'r rac hefyd yn cynnwys chwaraewr CD Denon DN-650F a chwaraewr MiniDisc Sony MDS-JE480. Mae popeth yn y rac yn hygyrch trwy patchbay Behringer PX2000 Ultrapatch.

Desg ddigidol Behringer X32 gyda 32 o fewnbynnau mono gyda preamps MIDAS rhaglenadwy, 6 o fewnbynnau, gyda 16 o XLR allbynnau a 6 allbynnau llinell. Prif LCR, 6 matrix buses ac 16 o mix buses, bob un ag inserts, EQ paramedrig 6-band a phrosesu dynameg llawn, ynghyd ag 8 DCA a 6 grŵp mud. Rac FX Rhithwir yn cynnwys 8 slotiau FX gwir-stereo. Am fwy o wybodaeth ewch i www.behringer.com/EN/Products/X32.aspx

**Chwyddleisyddion a Seinyddion**

Mae'r cymysgedd Blaen Tŷ chwith a dde yn mynd trwy EQ graffig 15-band deuol Yamaha GQ2015H cyn rhedeg trwy holltwr Sonifex wedi'i bweru. Y prif seinyddion ar y llwyfan yw dau PS15 yn Nexo a LS1200 bob ochr. Ategir hyn gan ddau seinydd EMS-61 fel llenwyr cefn. Mae'r Nexos yn cael ei bweru gan un Crown Macro-Tech 5000 VZ (tops) ac un Crown Macro-Tech 3600 VZ (mono-bridged subs). Mae'r seinyddion llenwi yn cael eu gyrru gan chwyddleisydd Yamaha P5000. Mae'r llenwad Cefn yn mynd drwy uned oedi Klark-Teknik DN700.

# MANYLEBAU TECHNEGOL

## Neuadd Dewi Sant—Llwyfan Lefel 3

**Llwyfan**

Mae blychau llwyfan ar ochr chwith a dde’r llwyfan. Mae'r rhain wedi’u gosod yn eu lle. Mae'r SR box yn cynnwys mic input 1 thru 8, fold back output 1 a 2 ac allbwn SR Nexo. Mae’r SL box yn cynnwys mix input 9 thru 16, foldback output 3 a 4 ac allbwn SL Nexo. Mae’r fold backs yn cael eu pweru gan ddau chwyddleisydd H+H M900 Mos-Fet pellach, wedi’u lleoli yn y rac amp. Mae pedwar o Martin wedges, un drum wedge, dau fonitor DAP Audio wedi’u pweru a dau fonitor TOA SM-75.

**Goleuadau**

24 x 2kw cylched hard patched / spilt rhwng Pedwar bar IWB wedi eu gosod yn fertigol ym Mlaen, Cefn a’r naill ochr i’r llwyfan.

10 x 1kw Long nosed par-cans

9 x 650w Quartet Fresnels

2 x 1kw Strand SL 18/32

4 x MAC 250 Krypton Moving Lights

Y system pylu yw Strand LD90 a reolir gan Ddesg Goleuadau Strand 300 Series

NID oes unrhyw bwyntiau hongian ar Lefelau 3 neu 4.




© Gareth Griffiths

# CYFLEUSTERAU TELEDU

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru


© Gareth Griffiths

### PARCIO

Gellir gwneud trefniadau ymlaen llaw rhwng Drws y Llwyfan a rheolwr dec gwasanaeth canolfan siopa Dewi Sant. Mae parcio ar gyfer cerbydau technegol a chefnogaeth ar gael ger yr ystafell terfynu ceblau. Gellir rhoi cerbyd cefnogaeth ychwanegol ychydig bellter i ffwrdd. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.

YSTAFELL TERFYNU CEBLAU

Mae hon yn cynnwys:

1) Cyflenwad Pŵer Technegol un wedd wedi'i gysylltu â:
   1 x Ffiws switsh gyda 2 x Cysylltwyr BICCs 80 amp
   1 x Ffiws switsh gyda 1 x Cysylltwyr BICCs 80 amp
   1 x Ffiws switsh gyda 1 x Cysylltwyr BS4343 125 amp ar bob switsh
   1 x BS4343 63 amp
2) Panel terfynu Triax gyda deuddeg cysylltwr 11mm wedi'u ceblu i'r safle camera a ddefnyddir amlaf. Gellir yn hawdd trefnu estyniadau i safleoedd eraill.
3) Pum cebl Mk IV multiway i'r lobïau ar y chwith a'r dde o'r llwyfan, ystafell rheoli goleuadau, a bwth sylwebu.
4) 10 cebl Star Quad multicore
5) 5 x cebl fideo ac 1 x cebl radio talkback. Cysylltwyr fideo ar yr holl flychau clywedol.

### GOLEUADAU

Mae trefniadau cynhwysfawr ar gael ar gyfer goleuo'r llwyfan a'r awditoriwm i deledu a chanllaw byr yn unig yw'r canlynol.

Mae safleoedd lampau'n cynnwys: dwy ffrâm yn hongian dros y llwyfan, dwy bont oleuo, bariau goleuadau tŷ ar y cefn ochr a blaen y tŷ. Dim ond wrth ddefnyddio harnais y gellir cael mynediad at y fframiau ochr.

### SAFLEOEDD CAMERA

Mae gosodiadau camera parhaol ar haenau 2, 4, 6 ac 8 ac mae dau osodiad y gellir eu haddasu ar gael i ffitio dros seddi mewn Haenau eraill neu'r seddi llawr. Hefyd gellir defnyddio gosodiad dros y byrddau estyll ar yr Haenau.

### SAFLEOEDD SYLWEBU

Mae safle sylwebu 'allan o'r golwg' gyda golwg glir o'r llwyfan, i lawr ochr chwith y llwyfan.

### STIWDIO RECORDIO

Stiwdio BBC gyda'r holl offer.

# CAPASITI YSTAFELLOEDD

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

| Ystafell | Maint | Capasiti / Gosodiad | |
|---|---|---|---|
| | | Yn sefyll | Yn eistedd |
| Stiwdio Lefel 1 | 197 metr sgwâr | 155 Derbyniad | 100 yn eistedd<br>130 Gwledd |
| Lefel 2 Cyntedd | 375 metr sgwâr | 200 Derbyniad | Amh. |
| Ystafell Ivor Novello (Lefel 2)<br>**DS Argaeledd cyfyngedig** | 34.5 metr sgwâr | 40 Derbyniad | 12 Ystafell Bwrdd<br>30 Theatr |
| Ystafell Werdd (Lefel 2) | 75 metr sgwâr (Siâp Afreolaidd) | 85 Derbyniad | 80 Theatr<br>30 Ystafell ddosbarth<br>30 Ystafell Bwrdd |
| Lefel 3 Cyntedd | 459 metr sgwâr (Siâp Afreolaidd) | 400 Derbyniad | 300 Gwledd<br>250 Dawns a Chinio<br>350 Theatr |
| Ystafell Llanelwy (Lefel 3) | 83 metr sgwâr | 100 Derbyniad | 60 Gwledd<br>75 Theatr<br>35 Ystafell ddosbarth<br>30 Ystafell Bwrdd |
| Ystafell Is-iarll Tonypandy (Lefel 3) | 30 metr sgwâr | 20 Derbyniad | 14 Gwledd<br>20 Theatr<br>12 Ystafell ddosbarth<br>14 Ystafell Bwrdd |
| Lefel 5 Cyntedd | 340 metr sgwâr<br>Siâp Afreolaidd | 300 Derbyniad | 150 Gwledd<br>150 Dawns a Chinio<br>250 Theatr<br>50 Ystafell ddosbarth<br>35 Ystafell Bwrdd |

# TALIADAU ATEGOL

**1af Ebrill 2016 – 31ain Mawrth 2017**

**Costau Teledu**

| | |
|---|---|
| Ffi Cyfleuster: | £2,070 |
| Taliadau staff: | £18 fesul person yr awr |
| Goleuadau Llwyfan: | £295 gordal/ darlledu neu recordio (Os yw'n berthnasol) |
| Ceblau Camera: | £192 |
| Trydan: | Goleuadau llwyfan a phwyntiau DA i'w mesur a'u codi. Codir am unrhyw daliadau mwyafswm galw, os na threfnir drwy'r Bwrdd Trydan leol. |
| Lleoliadau Camera: | Codir am y seddi a ddefnyddir |

**Ffi Cyfleuster Fideo Preifat (un weddera statig)**

| | |
|---|---|
| Ffi: | £320 |

**Ffi Cyfleuster Fideo Safonol**

| | |
|---|---|
| Ffi: | £400 fesul camera |
| Taliadau staff: | £18 fesul person yr awr |

**Ffi Cyfleuster Trosglwyddo Sain/ Recordio**

| | |
|---|---|
| Ffi: | £416 |

**Ffi Cyfleuster Recordio Sain Preifat**

| | | |
|---|---|---|
| Ffi: | £150 (CD) | Cost CD unigol wedi'i gynnwys |

Mae'r holl daliadau yn destun i TAW.



© Gareth Griffiths

# FFIOEDD HURIO—AWDITORIWM

## 1af Ebrill 2016 – 31ain Mawrth 2017

| Ffi Hurio'r Awditoriwm | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn Bore neu Brynhawn** | **Gyda'r nos (yn cynnwys y prynhawn)** | **Diwrnod cyfan (bore, prynhawn a gyda'r nos)** |
| **£2,515** | **£5,593** | **£8,108** |

**Blaendal** £1,000 yn daladwy wrth ddychwelyd y contract (ni ellir ei ad-dalu)

**Comisiwn Swyddfa** 15% o werthiannau net

**Gwerthiant Un-iongyrchol gan Hyrwyddwyr** (tu allan i'r Swyddfa Docynnau) 15% o gomisiwn yn seiliedig ar werth arferol y tocynnau

**Tocynnau Cyfarch** Caniateir hyd at 40 o docynnau cyfarch i sefydliadau sy'n cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y wasg. Os oes angen mwy o docynnau cyfarch yna codir comisiwn o 15% ar bris arferol y tocynnau

Noder fod TAW, PRS a CCC yn cael eu tynnu o'r incwm swyddfa docynnau cyn setlo

| **Taliadau amrywiol** | |
|---|---|
| Argraffu tocynnau | £190 |
| Hurio piano | £110 + cost tiwnio |
| Hurio organ | £143 + cost tiwnio |
| Gwerthwyr Rhaglen | 25% comisiwn |
| Staff Technegol (os oes mwy na 3 y di-gwyddiad) | Cyfradd a gytunir |
| Hysbysebu yn y wasg/ arddangos posteri | Codir ar bris cost + 20% |

**Mae'r holl gyfraddau uchod yn destun i TAW ar y gyfradd safonol**

# FFIOEDD HURIO AWDITORIWM MANTEISIOL

## 1af Ebrill 2016 – 31ain Mawrth 2017

Mae elusennau cofrestredig yn gymwys i gael cyfradd ostyngol yn ôl disgresiwn Cyngor Caerdydd. Mae angen gwneud cais ysgrifenedig am ostyngiadau o'r fath i Reolwr y Celfyddydau, Cyngor Caerdydd, d/o Neuadd Dewi Sant. Gweler y gyfradd fanteisiol isod.

| **Ffi Fanteisiol Hurio'r Awditoriwm** | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn Bore neu Brynhawn** | **Gyda'r nos (yn cynnwys y prynhawn)** | **Diwrnod cyfan (bore, prynhawn a gyda'r nos)** |
| **~~£2,515~~ £2,012** | **~~£5,593~~ £4,474** | **~~£8,108~~ £6,486** |

| | |
|---|---|
| **Blaendal** | £1,000 yn daladwy wrth ddychwelyd y contract (ni ellir ei ad-dalu) |
| **Comisiwn Swyddfa** | 15% o werthiannau net |
| **Gwerthiant Uniongyrchol gan Hyrwyddwyr** (tu allan i'r Swyddfa Docynnau) | 12.5% o gomisiwn yn seiliedig ar werth arferol y tocynnau |
| **Tocynnau Cyfarch** | Caniateir hyd at 40 o docynnau cyfarch i sefydliadau sy'n cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y wasg. Os oes angen mwy o docynnau cyfarch yna codir comisiwn o 12.5% ar bris arferol y tocynnau. |

Noder fod TAW, PRS a CCC yn cael eu tynnu o'r incwm swyddfa docynnau cyn setlo.

| **Taliadau amrywiol** | |
|---|---|
| Argraffu tocynnau | £190 |
| Hurio piano | £110 + cost tiwnio |
| Hurio organ | £143 + cost tiwnio |
| Gwerthwyr Rhaglen | 25% comisiwn |
| Staff Technegol (os oes mwy na 3 y di-gwyddiad) | Cyfradd a gytunir |
| Hysbysebu yn y wasg/ arddangos posteri | Codir ar bris cost + 20% |

Mae'r holl gyfraddau uchod yn destun i TAW ar y gyfradd safonol

# YN GYNNWYSEDIG YN Y FFI HURIO

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

- System PA Neuadd Dewi Sant, gyda hyd at 6 o feicroffonau a 2 borthiant foldback a gweithredwr
- Gweithredwr rig a goleuadau Neuadd Dewi Sant
- Tri aelod o staff technegol i gynghori, gan gynnwys y trydanwr tŷ
- Cofnod llawn yn ein llyfryn deufisol, gyda 20,000 o gopïau o'r rhain yn cael eu dosbarthu ar hyd a lled De Cymru.  Cynnwys yn y llyfryn canllaw bach os yn briodol.
- Defnydd o Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant
- Cofnod ar ein gwefan a defnydd o'n cyfleuster archebu ar-lein
- Arddangosfa am ddim yng nghynteddau Neuadd Dewi Sant o unrhyw daflenni a hyd at 10 o bosteri a gynhyrchir gan eich cwmni i hysbysebu'r digwyddiad
- Cyngor gan ein hadran Marchnata
- Cyfleuster ystafell gotiau
- Defnydd o’r Ystafell Werdd, yr holl ystafelloedd gwisgo, ac ystafell dderbyn
- Staff blaen tŷ Neuadd Dewi Sant



© Gareth Griffiths

# LEFEL 3 LLWYFAN & CYNTEDD

**1st Ebrill 2016 – 31st Mawrth 2017**

Ffi hurio (3 pm – hanner nos. Llun-Gwener) £1,140
Dydd Sadwrn, Dydd Sul, a Gwyliau'r Banc - gall costau ychwanegol fod yn berthnasol

Bydd angen o leiaf 1 person diogelwch ar gyfer diogelwch yr adeilad ar gost o £60 am alwad 5 awr. Os oes angen diogelwch pellach ar gyfer yr adeilad neu ddiogelwch y cyhoedd ym marn Neuadd Dewi Sant, yna codir am unrhyw gostau ychwanegol.

Bydd angen o leiaf 1 technegydd tŷ ar gyfer unrhyw ddigwyddiad ar y Llwyfan Dydd Lefel 3 a chodir y gost bresennol o £19.00 yr awr (cost yn amodol ar ddyfarniad cyflog blynyddol)

Mae'r ffioedd hurio uchod yn cynnwys yr holl staff angenrheidiol ar gyfer digwyddiadau safonol. Os bydd angen unrhyw staff ychwanegol oherwydd natur y digwyddiad, yna codir am unrhyw gostau.

Capasiti 350 (300 yn eistedd, dull cabaret)

**Taliadau Amrywiol**

| | |
|---|---|
| Argraffu tocynnau | £42 |
| Hurio piano | £110 + cost tiwnio |
| Gwerthwyr Rhaglen | Os oes angen staff Neuadd Dewi Sant staff i werthu rhaglenni yna cymerir 25% o gomisiwn. |
| Nwyddau | Gall ffi safle fod yn berthnasol, comisiwn o 10% yn daladwy ar y noson. |
| Cyfleusterau technegol | Mae’r cyfleusterau sain a goleuo ar gyfer y llwyfan dydd yn gyfyngedig ac wedi’u cynnwys yn y ffi uchod. Codir am unrhyw offer ychwanegol a ddarperir gan Neuadd Dewi Sant. |
| Arlwyo | Gellir darparu arlwyo ar sail arian parod neu fel y cytunwyd yn y contract. |

**Mae’r holl gyfraddau uchod yn destun i TAW ar y gyfradd safonol**



# FFIOEDD HURIO YSTAFELLOEDD

**1st Ebrill 2016 – 31st Mawrth 2017**

Mae cyfradd ostyngol ar gael yn amodol ar amgylchiadau .

Cysylltwch â ni os gall y cyfraddau hyn yn berthnasol i chi .

| ARDAL | SESIWN | Cyfradd Fasnach-ol Sylfaenol fesul Sesiwn | Cyfradd Syl-faenol Ostyngol fesul |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 1 STIWDIO** | AM / pm neu gyda'r nos | £264 | £264 |
| **LEFEL 2 CYNTEDD** | am/pm neu gyda'r nos | £184 | £128 |
| **LEFEL 3** | am/pm neu gyda'r nos | £416 | £291 |
| **LLWYFAN LEFEL 3** | Gyda'r nos | £1,141 | £1,141 |
| **LLWYFAN LEFEL 3 (ARDDANGOSFA)** | y dydd | £115 | £115 |
| **LEFEL 4** | am/pm neu gyda'r nos | £184 | £128 |
| **LEFEL 5** | am/pm neu gyda'r nos | £337 | £236 |
| **YSTAFELL IVOR NOVELLO** | am/pm neu gyda'r nos | £89 | £63 |
| **YSTAFELL IS-IARLL TONYPANDY** | am/pm neu gyda'r nos | £89 | £63 |
| **YSTAFELL WERDD** | am/pm neu gyda'r nos | £205 | £143 |
| **YSTAFELL LLANELWY** | am/pm neu gyda'r nos | £205 | £143 |
| **Ystafell Wisgo** | am/pm neu gyda'r nos | £68 | £48 |

Mae pob ystafell/ cyntedd yn amodol ar argaeledd

Nid yw'r cyfraddau uchod yn cynnwys hurio offer technegol ac maent yn destun i TAW ar y gyfradd safonol.

# HURIO OFFER

**1st Ebrill 2015 – 31st Mawrth 2016**

| Equipment | Type | Daily Hire Charge £ | Stock | Notes |
|---|---|---|---|---|
| Video Mixing Desk | Roland V-40 HD Mixer | £ 55.00 | 1 | |
| LED TV Screen | LG 42" widescreen - Freestanding Unicol Base | £ 100.00 | 4 | |
| Fixed TV Monitors | Sony 52" widescreen | £ - | 1 | Green Room, Level 2, 3 and 5, St Asaph Room, Viscount Tonypandy Room |
| DVD Player | Samsung DVD | £ 30.00 | 1 | |
| Data Projector | Promixa 5900 LCD, 120 Watt Lamp | £ 50.00 | 1 | Suitable for Room Hire use |
| Data Projector | Sanyo Pro Extra PLCXU74 | £ 50.00 | 1 | Suitable for Room Hire use |
| Data Projector | Hitachi CP-X50S | £ 75.00 | 1 | Fixed on Level 3 |
| Data Projector | Panasonic VX500 XGA | £ 150.00 | 1 | Suitable for Auditorium |
| Laptop Lectern Stand | Unicol | £ 15.00 | 2 | |
| VGA - HDMI Converter | | £ 10.00 | 1 | |
| VGA CAT 5 Extender | | £ 20.00 | 1 | Limited to under 100m cable run |
| HDMI - VGA Converter | | £ 10.00 | 1 | |
| Powerpoint Slide Remote | | £ 15.00 | 1 | |
| Laser Pointer | | £ 15.00 | 2 | |
| Portable Screen | 5' Roll-Up Type | £ 12.00 | 1 | |
| | Fast Fold Back / Front Projection Screen 6' x 4' | £ 25.00 | 1 | AR 4:3 |
| | Fast Fold Back / Front Projection Screen 8' x 6' | £ 35.00 | 1 | AR 4:3 |
| | Fast Fold Back / Front Projection Screen 10' x 7'6 | £ 60.00 | 1 | AR 4:3 Level 3 use |
| | Fast Fold Back / Front Projection Screen 16' x 9' | £ 75.00 | 1 | AR 16:9 Suitable for auditorium |
| White Cyclorama | 10m x 9m | £ 75.00 | 1 | Auditorium Only |
| Follow spot | Strong Supertrooper 2k HMI | £ 22.00 | 2 | Auditorium Only |
| Lit Music Stand | RAT Opera Stands w/LED Solo | £ 3.00 | 100 | |
| Hazer | Unique 2 | £ 35.00 | 2 | |
| PA System L3 - includes 1 mic | | - | | No charge where fitted as standard |
| PA System L1 - includes 1 mic | | - | | No charge where fitted as standard |
| Additional Microphones | | £ 13.00 | | per microphone |
| Radio Microphones | Shure ULX D (H/Held, Lav and Headset available) | £ 37.00 | 10 | 8 - Auditorium only |
| Batteries | PP3 Size | £ 1.00 | | each |
| | AA size | £ 0.75 | | each |
| | AAA size | £ 0.75 | | each |
| Adhesive Tape | Low Tack Gaffa (Black or White) | £ 7.00 | | per roll |
| | Electrical | £ 1.00 | | per roll |
| | Double Sided Exhibition Tape | £ 8.00 | | per roll |
| | Clear Dance Floor | £ 6.50 | | per roll |
| Recording Media | Blank 80 min CD-R | £ 1.00 | | each |

# TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

## Neuadd Dewi Sant—Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

Neuadd Dewi Sant, Y Hayes, Caerdydd, CF10 1AH

Mewn Car

"Guide to car parking facilities in Cardiff"
Pan fyddwch chi'n defnyddio Systemau Llywio Lloeren i fynd i Ddrws Llwyfan Neuadd Dewi Sant, bwydwch i mewn y Cod Post: CF10 2GS

Ar y Trên

**Gorsaf Ganolog Caerdydd**
Tua phum munud ar ddroed

**Gorsaf Heol y Frenhines Caerdydd**
Tua phum munud ar ddroed

Arriva Trains Wales

Mewn awyren

**Maes Awyr Caerdydd**
Tua hanner awr I ffwrdd mewn car

Cardiff Airport

Bys

**Orsaf Fysiau**
Tua phum munud ar ddroed

Cardiff Bus

Ar gyfer awditoriwm , cynhadledd, ac ymholiadau digwyddiadau arbennig , cysylltwch â **Yvonne Smith** on ysmith@caerdydd.gov.uk or 02920 878519

Ar gyfer archebu ystafelloedd , ac ymholiadau cyffredinol , cysylltwch â **Joanne John** on joanne.john@caerdydd.gov.uk or 02920 878511

St David's Hall
Neuadd Dewi Sant